North Wales **Together**
Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**

*Seamless services for people with Learning Disabilities*
*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*


# Gogledd Cymru Gyda'i Gilydd




# Yr hyn rydyn ni'n bwriadu ei wneud



# Y stori hyd yn hyn




Mae gan Ogledd Cymru Strategaeth Anableddau Dysgu.




Mae strategaeth yn dweud beth sydd angen iddo ddigwydd.



Yng Ngogledd Cymru, mae angen i wasanaethau newid.



Mae gwasanaethau wedi gwneud dechrau da o ran newid.

Ein gwaith ni yw cefnogi'r 6 awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd i wneud newidiadau.



Rydyn ni eisiau teimlo'n falch o'r hyn rydyn ni'n ei wneud.



Rydyn ni am weithio'n agos gyda phobl sydd ag anableddau dysgu a'u teuluoedd.



Rydyn ni am rannu grym gyda hwy.



Rydyn ni'n galw'r dull hwn o weithio yn gydgynhyrchu.



Rydyn ni wedi edrych ar yr hyn sy'n digwydd yng Ngogledd Cymru.



Diolch i bawb am rannu enghreifftiau o waith da.



Rydyn ni wedi dysgu:




- Ni allwn ni weithio gyda'r gwasanaethau anableddau dysgu yn unig. Mae angen i ni weithio gyda gwasanaethau cymunedol, gwasanaethau plant a gwasanaethau iechyd meddwl.



- Mae llawer o bethau da yn digwydd.




- Mae gan bobl ag anableddau dysgu hawliau. Maen nhw'n rhan o'n cymuned. Mae angen i gymunedau a staff fod yn fwy ymwybodol o hyn.



- Mae angen newid y ffordd rydyn ni'n meddwl. Rydyn ni'n cydgynhyrchu ffyrdd da o feddwl. Yna byddwn ni'n hyfforddi pobl i feddwl yn wahanol. Byddwn ni'n ceisio recriwtio staff sy'n rhannu ein ffordd o feddwl.



- Mae arian yn achosi rhwystrau. Mae Ynys Môn yn profi ffordd i wahanol wasanaethau rannu arian.




- Ni all pobl ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol os yw Iechyd yn talu tuag at eu gofal a'u cymorth. Byddwn ni'n ceisio newid hyn.



- Efallai y bydd angen grwpiau newydd ledled Gogledd Cymru arnon ni i wneud yn siwr bod gwasanaethau lleol yn newid.




Dywedodd pobl wrthon ni beth sy'n bwysig iddyn nhw.

Felly dyma'r pethau y byddwn ni'n gwneud rhywbeth amdanyn nhw.



- Cymorth da i fabanod a phlant



- Lle da i fyw



- Rhywbeth ystyrlon i'w wneud



- Ffrindiau, teulu a pherthnasoedd



- Bod yn ddiogel



- Bod yn iach



- Y cymorth iawn



Rydyn ni'n credu y bydd gan wasanaethau bum her wrth iddyn nhw geisio newid.




- Sut mae gwasanaethau'n cydweithio



- Cael y staff cywir gyda'r sgiliau cywir




- Penderfynu pa wasanaethau sydd eu hangen, a dewis sefydliadau i'w rhedeg



- Sut mae gwasanaethau a'r gymuned yn ffitio gyda'i gilydd



- Defnyddio technoleg i helpu pobl



Mae gennym 4 aelod o staff i helpu gwahanol rannau o Ogledd Cymru i wneud newidiadau.


Mae gennym 1 aelod o staff i helpu Iechyd i wneud newidiadau.



Mae gennym 5 aelod o staff i helpu gwasanaethau i fynd i'r afael â heriau.



Mae gennym Reolwr Rhaglen hefyd.




# Beth nesaf?




Edrychon ni ar yr hyn y mae pobl yn ei ddweud sy'n bwysig iddyn nhw.



Gwnaethon ni restr o broblemau.



Penderfynon ni beth i'w wneud.



Nawr mae angen i ni fwrw ymlaen gyda'r gwaith.




# Mae pobl eisiau:

# Y cymorth iawn



**Mae pobl yn byw gyda rhieni oedrannus. Nid oes ganddyn nhw gynllun ar gyfer y dyfodol.**



- Byddwn ni'n darganfod beth sy'n digwydd y tu allan i Ogledd Cymru.



- Mae Sir Ddinbych yn mynd i ddechrau prosiect Cynllunio ar gyfer y Dyfodol. Byddwn ni'n eu cefnogi nhw.



**Mae pobl am wneud pethau cymunedol cyffredin.**



Byddwn ni'n cefnogi grwpiau cymunedol i ddechrau grwpiau cyfeillio a chyfeillgarwch.



Byddwn ni’n gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu defnyddio gwasanaethau iechyd cyffredin.



**Mae pobl sy'n rhedeg gwasanaethau am wybod beth maen nhw'n cael gwneud.**



Byddwn ni’n cynnal digwyddiad ar 14 Hydref iddyn nhw.



**Mae pobl am gael y gorau gan Daliadau Uniongyrchol.**




Byddwn ni'n chwalu mythau am yr hyn y gallwch chi ei wneud a'r hyn na allwch chi ei wneud gyda Thaliadau Uniongyrchol.



Byddwn ni'n chwilio am ffyrdd i'w gwneud yn haws i bobl reoli eu Taliadau Uniongyrchol.






Byddwn ni'n gweithio gyda Sir y Fflint a'r bwrdd iechyd i gytuno ar reolau taliadau uniongyrchol i bobl sy'n cael cymorth gan Iechyd yn ogystal â'r Cyngor.



**Mae angen cefnogaeth ychwanegol ar rai pobl ar gyfer bywyd bob dydd. Mae angen i'w teuluoedd, eu gofalwyr a'u staff wybod sut i'w cefnogi.**



Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod mwy o ofalwyr a staff yn gwybod am Gymorth Gweithredol a Chymorth Ymddygiad cadarnhaol.



Byddwn ni’n rhoi hyfforddwyr a gwasanaethau mewn cysylltiad â'i gilydd.




Byddwn ni’n cytuno ar ffordd Gogledd Cymru o wneud Cymorth Gweithredol.



**Nid ydym yn gwybod a yw gwasanaethau'n cael pethau'n iawn i bobl ag anghenion cymorth uchel.**



Byddwn ni'n dysgu sut i'w cefnogi i gael mwy o ddewis a rheolaeth.



Byddwn ni'n gwneud yn siŵr y gall mwy o wasanaethau gynnwys pawb.




**Mae angen i ni wneud gwell defnydd o dechnoleg**




Byddwn ni'n defnyddio technoleg i'w:

- gwneud yn haws i bobl ddod o hyd i wybodaeth hygyrch




- helpu pobl i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a chael gwybod am ddigwyddiadau cymunedol




- helpu pobl i fod yn iachach ac i fod yn annibynnol



Byddwn ni'n gwneud llyfrynnau i staff er mwyn iddyn nhw gofio dweud wrth bobl sut y gall technoleg eu helpu nhw.




## Mae pobl eisiau:

## Cyfeillgarwch a pherthnasoedd




Byddwn ni'n gweithio gyda Sir y Fflint i ailddechrau grŵp cydgynhyrchu a fydd yn edrych ar gyfeillgarwch a pherthnasoedd



Byddwn ni'n gwneud rhywfaint o waith i gytuno ar agweddau da tuag at ryw



Mae pobl am gael caniatâd i fentro mewn ffordd ddiogel.



Byddwn ni'n rhannu gwaith Conwy gyda gweddill Gogledd Cymru.



# Mae pobl eisiau:


# Rhywbeth ystyrlon i'w wneud



**Mae pobl am weithio a gwirfoddoli**



Mae angen i ni feddwl yn wahanol am bethau



Mae angen i ni chwalu mythau



Mae angen i ni gofio bod ar bobl angen cyfle i gael hwyl a gwneud chwaraeon, nid gwaith yn unig



**Mae angen i wasanaethau cyhoeddus arwain y ffordd wrth gyflogi pobl sydd ag anableddau dysgu.**




Byddwn ni'n helpu gwasanaethau cyhoeddus i wella wrth wneud hyn.




**Gallai Taliadau Uniongyrchol gael eu defnyddio i greu mwy o gyfleoedd i weithio a gwirfoddoli**



Byddwn ni'n dod o hyd i enghreifftiau da yng Ngogledd Cymru.




Byddwn ni'n chwilio am enghreifftiau da y tu allan i Ogledd Cymru.



Byddwn ni'n cefnogi gwaith Sir y Fflint ar Daliadau Uniongyrchol. Maen nhw'n dod o hyd i ffyrdd o'i gwneud yn haws i recriwtio Cynorthwywyr Personol.



**Mae Chwilio am Brosiect Gogledd Cymru yn gweithio'n dda.**



Byddwn ni'n edrych i weld a all Gogledd Cymru gael mwy o gynlluniau Chwilio am Brosiect.



**Mae pobl am gael cyfleoedd da yn ystod y dydd os nad ydyn nhw'n gweithio neu'n gwirfoddoli.**




Byddwn ni'n gweithio allan beth y gallai gwasanaethau dydd eu cynnig yn y dyfodol.




Efallai y bydd pobl am ddefnyddio gwasanaeth sy'n cael ei redeg gan gyngor gwahanol. Byddwn ni'n gweithio allan sut y gallan nhw wneud hyn.



## Mae pobl eisiau:

## Lle da i fyw



**Mae rhai mathau o dai a chymorth yn arbenigol. Mae angen i gynghorau lleol weithio gyda'i gilydd i'w comisiynu.**





Rydyn ni'n creu cynllun. Byddwn ni'n siarad â chymdeithasau tai am y cynllun.



Mae rhai pobl ag anghenion cymhleth eisiau bod yn denantiaid yn eu cartrefi eu hunain. Byddwn ni’n gofyn i wasanaethau sut y gallwn eu helpu i weithio gyda'i gilydd fel y gall hyn ddigwydd.




**Mae angen i gynghorau gynllunio ar gyfer y dyfodol, yn enwedig ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth.**



Byddwn ni'n gweithio allan pa wasanaethau y bydd eu hangen.




Mae angen i gynghorau wybod y rheolau ar gyfer cydweithio. Byddwn ni'n gweithio ar reolau ynglŷn â rhannu costau a phwy sy'n gyfrifol am beth.



**Mae angen mwy o gymorth ar rai pobl nag y gallan nhw ei gael gartref. Ond nid oes angen iddyn nhw symud i ysbyty.**



Mae angen i ni weithio allan beth i'w wneud am hyn.




**Mae'r unig lety mewn argyfwng mewn cartrefi gofal.**



Byddwn ni'n ystyried cael unedau byw â chymorth ar gyfer pobl y mae angen cymorth brys arnyn nhw. Bydd angen cael staff yno drwy'r amser. Bydd hyn yn gofyn i Gynghorau ac Iechyd weithio gyda'i gilydd.




**Mae ar lawer o bobl angen eu cartref eu hunain. Mae angen cymorth arnyn nhw, ond nid drwy'r amser.**



Byddwn ni'n edrych ar dai â gofal ychwanegol.



**Ar hyn o bryd, yr unig opsiwn i blentyn neu berson ifanc sydd angen gofal dros nos yw cartref plant neu ofal maeth.**



Byddwn ni'n gweld a ellir defnyddio Bywydau a Rennir ar gyfer gofal seibiant i bobl ifanc.




**Mae ar rieni sydd ag anableddau dysgu angen gwasanaethau er mwyn eu cynorthwyo nhw ochr yn ochr â'u plentyn.**




Byddwn ni'n gweld a ellir defnyddio Bywydau a Rennir ar gyfer hyn.




**Os yw rhywun yn cael cymorth, mae'n anodd symud i ardal cyngor lleol arall.**




Byddwn ni'n ysgrifennu rheolau.



# Mae pobl eisiau:


# bod yn iach



**Nid yw llawer o bobl yn cael eu gwiriad iechyd blynyddol**



Byddwn ni'n gweithio gyda staff Cyswllt Iechyd Ynys Môn i ddod o hyd i ffyrdd o'i gwneud yn haws.




**Mae ar bobl angen gwell gwybodaeth am aros yn iach.**



Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod gwybodaeth dda ar gael.




Byddwn ni'n gweithio gyda staff iechyd a gofal cymdeithasol i'w cael i annog pobl i gael gwiriadau iechyd a sgrinio iechyd.



**Efallai y bydd angen cymorth ar bobl ar gyfer apwyntiadau neu i fynd i mewn i'r ysbyty.**



Byddwn ni’n edrych ar ffyrdd o ddatrys y problemau gyda chymorth.




**Mae angen i unedau cleifion mewnol a chynlluniau byw â chymorth iechyd arbenigol wneud newidiadau.**




Byddwn ni'n sefydlu gweithgor.



## Mae pobl eisiau:

## bod yn ddiogel




**Mae ar ogledd Cymru angen mwy o gynlluniau Lleoedd Diogel**



Mae Wrecsam wedi gwneud hyn. Byddwn ni'n helpu gweddill Gogledd Cymru i wneud hyn.




**Gall technoleg helpu pobl i fod yn ddiogel**.




Byddwn ni'n meddwl am fod yn annibynnol ac yn ddiogel.




Byddwn ni hefyd yn meddwl am beryglon.



## Mae pobl eisiau:

## Cymorth da i blant a theuluoedd

Ein prif flaenoriaethau yw:




Gwella'r symud o wasanaethau plant i rai oedolion



Cytuno ar ffordd Gogledd Cymru i gynllunio beth sy'n digwydd ar ôl ysgol



Gweithio allan pam mai ychydig iawn o ddarparwyr gofal cartref sydd ar gael i blant anabl




**Mae angen i ni gael gwybod mwy am yr hyn sydd angen ei newid.**



Rydyn ni'n cynnal digwyddiad ar 17 Hydref i gael gwybod mwy am yr hyn sydd angen ei newid mewn Gwasanaethau Plant.




# Mae pobl eisiau:

# Cymorth da i ofalwyr

Ein prif flaenoriaethau yw:



Seibiannau byr i blant. Byddwn ni'n edrych ar seibiannau dros nos ac egwyliau yn ystod y dydd



Gofal seibiant dros nos i oedolion.



Ei gwneud yn haws cael diagnosis ar gyfer y plentyn neu'r oedolyn y mae'n gofalu amdano.



Ei gwneud yn haws cael cymorth.

Ysgrifennwyd 7fed Hydref 2019

Gan ddefnyddio PhotoSymbols